Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ynystawe Lodge

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi:  23/06/2016**

## Cyd-destun

Mae Ynystawe Lodge yn ysgol arbennig annibynnol gyda chartref plant cysylltiedig ym mhentref Ynystawe, ar gyrion dinas Abertawe. Mae'n darparu addysg i bobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o fod ar y sbectrwm awtistig, neu sy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, mae pedwar disgybl rhwng 11 ac 16 oed yn cael eu haddysgu yn yr ysgol. Mae dau ddisgybl yn ddysgwyr dydd a dau ddisgybl yn preswylio yn y cartref plant ar y safle.

Mae'r holl ddisgyblion ar y sbectrwm awtistig ac mae ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r ysgol wedi adeiladu ystafell synhwyraidd newydd. Mae gan yr ysgol ardal awyr agored briodol sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd i roi amgylchedd allanol ysgogol i ddisgyblion.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r athro â gofal dros dro yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut i symud yr ysgol yn ei blaen a gweledigaeth glir ynghylch lle y mae angen i'r ysgol fod yn y dyfodol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn adolygu'r cwricwlwm yn unol â'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru: Dyfodol Llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ei chynlluniau cwricwlwm.

Mae'r ysgol wedi sefydlu asesiad gwaelodlin sicr o fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae hyn wedi caniatáu i'r ysgol ddatblygu targedau dysgu unigol priodol ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae cysylltiadau cryf rhwng y staff addysgu a'r staff gofal. Mae'r athro â gofal dros dro yn mynd rhagddo i hybu dull cyson rhwng gofal ac addysg ac wedi amlygu meysydd perthnasol ar gyfer datblygiad staff.

Caiff gwersi eu cynllunio'n dda a chaiff gweithgareddau eu dewis i gynnig symbyliad a diddordeb. Mae'r holl ddisgyblion yn ymroi'n dda i'w gwersi.

## Meysydd i'w datblygu

Ar hyn o bryd, nid yw'r ardal tu allan yn cynnig ardal allanol ddiogel a defnyddiol, sy'n gwbl hygyrch i'r disgyblion.

Nid oes gan yr ysgol strwythur staffio parhaol. Er enghraifft, mae'r athro â gofal yn cael ei gyflogi dros dro ar hyn o bryd.

Er bod cofrestr presenoldeb yr ysgol yn gyfredol, nid yw'n bodloni gofynion rheoleiddio yn llawn. Er enghraifft, nid oes cofnod ynghylch p'un a yw absenoldeb disgybl 'wedi'i awdurdodi', 'heb ei awdurdodi' neu o ganlyniad i 'fynychu gweithgaredd addysgol wedi'i awdurdodi'.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau priodol â phartneriaid ac asiantaethau iechyd. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud y defnydd gorau yn gyson o'r cyngor a'r arweiniad a ddarparant. Mewn ychydig achosion, nid yw'r ysgol wedi gwneud defnydd effeithiol o'r cysylltiadau hyn i sefydlu cyngor sicr ar ddefnyddio offer arbenigol.

Mae'r holl staff yn yr ysgol yn cymhwyso'r gweithdrefnau rheoli ymddygiad yn gyson. Fodd bynnag, nid yw'r broses rheoli ymddygiad yn cynnwys ffocws digonol ar achosion ymddygiad amhriodol. Mae ychydig ddigwyddiadau yn mynd yn eu blaen yn rhy hir cyn dod â nhw i ben.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru)

A2 Datblygu'r ardal awyr agored fel ei bod yn briodol i anghenion y disgyblion ac yn fan diogel ar gyfer gweithgareddau

A3 Sefydlu strwythur staffio parhaol

A4 Ceisio cyngor perthnasol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gyfer defnyddio offer arbenigol

A5 Adolygu polisi ac ymarfer yr ysgol o ran rheoli ymddygiad

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1:  Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2:  Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3:  Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn.  Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- **3(9)** sicrhau bod y gofrestr bresenoldeb yn cael ei chynnal yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010.

**Safon 4:  Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5:  Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 6:  Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7:  Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar hyn o bryd, nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. I gydymffurfio â'r gofynion hyn yn llawn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ynystawe Lodge |
| **Rhif yr ysgol** | 6706025 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 18/04/2016 |
| **Perchennog** | Horizons Educare<br>Richard Byng – Cyfarwyddwyr, Pennaeth Addysg<br>Gerald Williams – Cyfarwyddwr<br>Alison Willams – Cyfarwyddwr |
| **Staff** | 1.6 athro<br>2 gynorthwyydd cymorth dysgu<br>Staff gofal |
| **Nifer y disgyblion** | 4 |
| **Darpariaeth** | Preswyl/Seibiant a Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau'r sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Dd/B |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Dd/B |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 01/10/2015 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Gill Sims | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Sw Roberts | Arolygydd Tîm |